Y Pwyllgor Cyllid
—
Finance Committee

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@Senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565
—
Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
senedd.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

Ken Skates AS,
Comisiynydd y Gyllideb a Llywodraethu

16 Mai 2022

Y Gyllideb Atodol gyntaf ar gyfer 2022-23: Costau i helpu i weinyddu'r Bwrdd Taliadau Annibynnol

Annwyl Ken,

Trafododd y Pwyllgor gais Comisiwn y Senedd am gyllideb atodol yn ei gyfarfod ddydd Mercher 11 Mai.

Mae'r Comisiwn yn nodi'r cynnig yn y Gyllideb Atodol a fyddai'n cynyddu'r gyllideb ar gyfer costau cymorth y Bwrdd Taliadau Annibynnol £218,000 ac yn lleihau costau Swyddfa'r Comisiynydd Safonau £68,000, sef cynnydd net cyffredinol £150,000.

Mae'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi'r wybodaeth ychwanegol a roddwyd i'r Pwyllgor i gefnogi'r cynnydd arfaethedig yn adnoddau'r Bwrdd Taliadau Annibynnol. Mae'r Pwyllgor hefyd yn croesawu'r ffaith bod cyllideb y Bwrdd Taliadau Annibynnol wedi'i chyflwyno ar wahân i gyllideb weithredol y Comisiwn. Mae hwn yn ddatblygiad cadarnhaol a bydd yn helpu'r Pwyllgor yn ei waith craffu ar gyllideb y Bwrdd Taliadau Annibynnol yn y dyfodol. Mae hefyd yn adlewyrchu statws annibynnol y Bwrdd Taliadau Annibynnol a rôl y Comisiwn wrth ddarparu ei gymorth gweinyddol.

Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn nodi bod y cais am £218,000 o gyllid ychwanegol ar gyfer cyllideb y Bwrdd Taliadau Annibynnol yn gyfran sylweddol o'r arian (£477,000) y gofynnwyd amdano ar gyfer costau cymorth yn y Gyllideb Atodol. Felly, mae'r Pwyllgor yn gofyn am ragor o wybodaeth am y cynnydd hwn cyn y gall fynegi ei farn am gais y Comisiwn. Yn benodol, hoffai'r Pwyllgor i'r Comisiwn esbonio:

- sut y cyrhaeddwyd y ffigur hwn, gan gynnwys sut y daeth y Comisiwn i'r casgliad bod cais y Bwrdd Taliadau Annibynnol yn rhesymol;

- pam na ellid ariannu'r costau hyn drwy wneud arbedion effeithlonrwydd yn ystod y flwyddyn, neu ailneilltuo swyddi gwag i'r maes hwn;
- sut y gwarir yr arian (£218,000) ar gyfer costau cymorth ychwanegol, os cytunir arno.

Fel y deallwch, rwy'n siŵr, mae angen craffu'n drylwyr ar unrhyw gynnydd cyllidebol, ac mae angen i'r Pwyllgor fod yn fodlon mai fel dewis olaf y mae'r Comisiwn yn defnyddio cyllideb atodol i dalu'r costau hyn a bod yr holl arbedion effeithlonrwydd posibl wedi'u harchwilio.

Yn gywir,

Peredur Owen Griffiths AS

Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.